LLAIS CYMRAEG Y MUDIAD BYD-EANG I WARCHOD EIN DAEAR

# Y Papur Gwyrdd

Rhif 21 Rhagfyr / Ionawr 2010-11 www.ypapurgwyrdd.com PRIS: £1

## Wedi 2010 - Blwyddyn y Gwadu - a ddaw Gobaith Gwyrdd yn ôl yn 2011?

**Gwyddonydd yn gweld effaith y Cynhesu yn yr Arctig ...**






**... Plant ysgol yn mynd ati i warchod y Ddaear**

ISSN 1755-3504
12
9 771755 350009

*MYFANWY DAVIES — RHOWN NEWID HINSAWDD YNG NGHANOL GWLEIDYDDIAETH; GORDON JAMES — CWMNÏAU MAWR I ELWA AR DRAUL YR AMGYLCHEDD TRWY UNO CYRFF; CHARLOTTE DAVIES — ANOBAITH MUDIAD DARK MOUNTAIN ; ELFED GRUFFYDD — CYNLLUN GWYRDD GOBEITHIOL GWYNEDD*

**Cyfarchion Gŵyl y Geni i bawb ohonoch!**

## CYFARCHION Y TYMOR O'R PAPUR GWYRDD

**Golygydd**: Hywel Davies
**Cyfeiriad**: 217 Vicarage Road, Treforys, Abertawe SA6 6DX
**Ffôn**: 01792 798162
**Ebost**: ypapurgwyrdd1@btinternet.com
**Gwefan**: www.ypapurgwyrdd.com

Cyhoeddir yn ddeufisol ers Awst 2007 gan Hywel a'r Dr Charlotte Davies (cwmni Y Papur Gwyrdd Cyf.)

Argreffir Y Papur Gwyrdd yn llwyr ar bapur wedi'i ailgylchu, gan ddefnyddio inc llysieuol ar 8 o'r 12 tudalen, gan Wasg Morgannwg, Uned 27, Parc Busnes Mynach-log Nedd, Castell-nedd SA10 7DR.

***Llais Cymraeg, annibynnol, i'r ymgyrch byd-eang i fynnu parch i'r Ddaear***

## Y Papur Gwyrdd

Mae'r **Papur Gwyrdd** ar werth gan lyfrwerthwyr da led-led Cymru. Ond croeso i chi danysgrifio i'w dderbyn trwy'r post. Danfonwch eich manylion cyswllt atom gyda'ch taliad (cyfeiriad uchod):

**ENW:**

……………………………………

**CYFEIRIAD:**

……………………………………
……………………………………
……………………………………

**Côd Post** ………………

Amgaeaf siec at '**Y Papur Gwyrdd**' am ………………

(Unigolion: £6 am 6 rhifyn. Croesewir cyfraniadau i gynorthwyo gyda chostau postio. Sefydliadau: £8.50).

# CYNNWYS

**3** NEWYDDION
Y gwyddonydd **Dr Alun Hubbard** o Aberystwyth yn cael ei synnu gan doddiant iâ'r Arctig



**4** GOLYGYDDOL
**Hywel Davies** —
Wedi *2010, Blwyddyn y Gwadu*, a fydd y byd yn gwrando ar y mudiad Gwyrdd yn 2011?

**5** GWLEIDYDDIAETH
**Dr Myfanwy Davies** —
Hanfodol i wleidyddion roi lle canolog i bwnc newid hinsawdd



**6** ECONOMI
Wrth groesawu *Western Coal*, dyma droi'r cloc yn ôl i oes y llwch a fu

**Ennill a Cholli** —
Hynt a helynt y blaned o bedwar ban byd

**7** CREU YFORY GWELL
**Elfed Gruffydd** —
Plant Gwynedd ar y blaen wrth ddysgu sut i warchod y Ddaear

**8** RHY HWYR I'R BLANED?
**Dr Charlotte Davies** —
Mudiad *Dark Mountain* yn ofni bod y cyfan ar ben ... ar ba sail?



**9** UNIAD FFÔL
**Gordon James** —
Llywodraeth y Cynulliad yn ffafrio cwmnïau ar draul y Ddaear wrth uno cyrff i arbed gwariant

**10** **Daeariadur YPG**
**Adolygiad: The Spirit Level** — Y llyfr sy'n dweud Tegwch! Nid Twf!

**11** **Y Byd a'r Aelwyd**
Ar yr *Hôm Ffrynt* gyda chyhoeddwyr **YPG**

**Lluniau Dydd y Ddaear 10 / 10 / 10**

***MATRESI ORGANIG ABACA, tudalen 12***

## PROFI CYNHESU'R BYD YN YR ARCTIG



**Cafodd y gwyddonydd Dr Alun Hubbard o Brifysgol Aberystwyth ei synnu gan olygfeydd fel hyn o eangderau o ddŵr cymharol gynnes yn yr Arctig lle disgwyliai weld iâ trwchus. [Stori, tud 3].** *TÎM LLUNIAU: Nick Cobbing, Jason Box, Alun Hubbard, Trudy Wohlleben*


# Gwyddonydd yn synnu at freuder yr Arctig

**YN gynt eleni, aeth y Dr Alun Hubbard o Sefydliad Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear, Prifysgol Aberystwyth, ar daith i'r Arctig ar long Greenpeace, *Arctic Sunrise*. Synnodd wrth brofi enciliad yr iâ drosto'i hun. Dyma ran o adroddiad ganddo yn rhifyn cyfredol *Prom,* cylchgrawn y Brifysgol ...**

'... ROEDD y syniad o fod ar daith gyda Greenpeace yn fy niddori – roeddent yn sicr yn teithio ymhell ac roedd y syniad o gael hofrennydd a chriw o weithwyr milwriaethus brwd wrth law yn enw gwyddoniaeth (heb i mi orfod gwneud y gwaith papur) yn ddeniadol tu hwnt.

Roedd diddordeb hefyd gennyf i ddysgu mwy am ddulliau cyfryngol Greenpeace – tybed a fyddent yn ceisio dylanwadu ar unrhyw ganfyddiadau a gosod pwysau ar fy adroddiadau i sicrhau'r neges roeddent am ei chyfleu: rwyf i wrth fy modd yn dadlau, ac roeddwn yn edrych ymlaen at weld faint o hipis dwl y gallwn i eu tramgwyddo cyn cael fy nhaflu i'r dŵr.

Fy amheuaeth i oedd bod y rhewlifoedd allfa gogleddol enfawr hyn (y cewri cwsg) yn llen iâ'r Ynys Las ymhell y tu hwnt i effeithiau newid hinsawdd diweddar — roedd y tymheredd cymedrig,




**'Roeddem ni wedi cofnodi ardal o ddŵr oedd 30 milltir o led ac a oedd yn $12^{o}$C i ddyfnder o 20 medr' - Dr Alun Hubbard**

-$30^{o}$C, yn rhy rewllyd i radd neu ddwy o 'gynhesu anthropogenig' wneud taten o wahaniaeth.

Peth braf yw anwybodaeth, felly roedd yn dipyn o syndod a rhwystredigaeth i mi fy nghanfod fy hun ar yr **Arctic Sunrise** ddiwedd mis Mehefin diwethaf yn hwylio i mewn i sianel Kennedy heb unrhyw iâ i'w weld yn unman ... Nid yn aml wyf i wedi gweld fy rhagdybiaethau'n cael eu chwalu'n rhacs, ond dyma ddechrau cyrch maes chwe wythnos a drodd fy syniadau am yr Ynys Las, Greenpeace a breuder yr Arctig ben i waered ...

... Fe fagwyd ynof barch newydd at griw cwch Greenpeace, yr **Arctic Sunrise**, a'u cywreinrwydd ysbrydoledig a di-ofn, eu hymagwedd gadarnhaol 'gallaf wneud hyn' a'u hymroddiad, a synnwyr cryf nad yw amgylchedd yr Arctig mor gryf a chadarn ag yr oeddwn i wedi meddwl yn flaenorol.'

# Gwyrddion y Blaid

**LANSIWYD grŵp newydd *Gwyrddion y Blaid* yn ystod cynhadledd flynyddol Plaid Cymru yn Aberystwyth.**

Mewn anerchiadau gan Lywydd y Blaid, Jill Evans ASE, a Leanne Wood AC, nodwyd mai Plaid Cymru lwyddodd i ethol Aelod Seneddol Gwyrdd cyntaf San Steffan ym 1992 (Cynog Dafis dros Geredigion) - gyda Phlaid Werdd Lloegr (a Chymru) yn dilyn gyda Caroline Lucas yn 2010.

Bu'r Blaid hefyd yn gefnogol i bolisïau gwyrdd ers cyfnod hir gan gynnwys ynglŷn ag ynni adnewyddol, lleihau traffig, ac ehangu rhandiroedd.

Yn Senedd Ewrop, mae Plaid Cymru'n aelod o'r mudiad trawsbleidiol gwyrdd mwyaf, *Gwyrddion/EFA*, sydd â Jill Evans yn Llywydd arno.

### CEFNOGAETH

Dywedodd llefarydd ar ran y grŵp newydd mai Plaid Cymru oedd â'r record gorau Seneddol am gefnogi polisïau gwyrdd.

Byddai *Gwyrddion y Blaid* yn fodd i ennill mwy o gefnogaeth eto i faterion amgylcheddol, meddai, yn wyneb yr argyfyngau sy'n wynebu'r Ddaear a'i phobl.

## Dyfodol heulog Ceredigion

**MAE Ceredigion wedi gweld y goleuni. Penderfynodd y Cyngor Sir osod paneli haul i gynhyrchu trydan adnewyddol ar bob adeilad newydd.**

**Y gobaith yw eu gosod ar adeiladau eraill y cyngor yn ogystal yn y dyfodol.**

**Bydd y trydan a gynhyrchir yn dod ag elw ariannol trwy ffioedd bwydo trydan i'r Grid Cenedlaethol Bydd hyn yn help i'r cyngor ddelio â thoriadau Clymblaid Tori / Lib Dem San Steffan.**

## Dal i gynhesu

WRTH edrych ar y blaned gyfan, tymheredd tir a môr Awst eleni oedd y 3ydd cynhesaf ers i recordiau gychwyn (gyda 1998 a 2009 ar y blaen). Roedd y tymheredd rhwng Ionawr ac Awst eleni'n gydradd gyda 1998 fel y cyfnod mwyaf cynnes. Gallwn redeg rhag ffeithiau cynhesu byd eang, ond fyddwn ni ddim yn gallu cuddio rhag yr effeithiau. *[Ffigyrau NOAA - UDA]*.

# Rhaid diwygio'r banciau — neu fe dalwn ni eto!

**MAE angen cynllun brys i sicrhau na fydd banciau'r Deyrnas Gyfunol yn achosi mwy eto o anrhefn ariannol.**

Mewn adroddiad *'Where Did Our Money Go?'*, mae'r New Economics Foundation yn dweud bod diffyg gwybodaeth affwysol wedi bod ynglŷn â ble'r aeth y £1.2 triliwn ddefnyddiwyd i achub y banciau.

Ofn y NEF yw y bydd y banciau'n gorfod troi am fwy o gymorth gan drethdalwyr oherwydd diffyg cronfeydd cynyddol sy'n debyg i godi i gymaint â £25 biliwn y flwyddyn nesaf.

Meddai Tony Greenham, pennaeth rhaglen gyllideb a busnes y NEF, "Mae'r cyhoedd eisoes wedi talu dwywaith am fethiant y banciau, yn gyntaf trwy eu hachub o'u colledion ac yna drwy ddioddef rhaglen o doriadau enbyd i wasanaethau cymdeithasol i blesio'r marchnadoedd ariannol."

Dywedodd fod angen diwygio'r drefn ar frys gan gynnwys hollti banciau'r stryd fawr rhag peryglon y farchnad buddsoddi a thrwy rannu sefydliadau yr honnir eu bod yn 'rhy-fawr-i-fethu.'

***► Mae'r New Economics Foundation yn gosod cynnal ecosystemau'r Ddaear ynghanol ei syniadau. Mwy ar: www.neweconomics.org***

**CROESO I WEFAN**

**Y PAPUR GWYRDD**

**www.ypapurgwyrdd.com**

**Y Porth Cymraeg i ymgyrch y Ddaear**

GOLYGYDDOL | HYWEL DAVIES



# Yng nghysgod Blwyddyn y Gwadu, rhaid bwrw ati i blannu'n 'coed afalau' ...

**BLWYDDYN o siom oedd 2010 i fudiad y Ddaear. Blwyddyn y Gwadu oedd hi – blwyddyn o lwyddiant i lobïwyr fu'n honni mai twyll yw'r syniad o Gynhesu Byd-eang. Wedi methiant Cynhadledd Newid Hinsawdd Copenhagen, a'r cyhuddiadau ffals a maleisus yn erbyn gwyddonwyr newid hinsawdd ym Mhrifysgol East Anglia a'r Unol Daleithiau, gwthiwyd y pwnc oddi ar y llwyfan gwleidyddol.**

Y cwestiwn tyngedfennol bellach yw a oes gobaith o gwbl y bydd 2011 yn gweld ymwybyddiaeth o'r peryglon sy'n wynebu'r Ddaear yn adennill y tir a gollwyd, fel y gallwn ail-gychwyn ar y dasg o ymateb iddynt.



Dyw'r rhagolygon ddim yn dda. Prin yw'r gobeithion am Gynhadledd Newid Hinsawdd Cancun, yr olynydd i Copenhagen. Dengys Polau Piniwn fod cwymp sylweddol wedi bod yng nghanran poblogaeth y DG sy'n credu bod Newid Hinsawdd yn digwydd. Gwelir diwydiannau carbon fel Glo'n teimlo'n ddigon saff, bellach, i beidio â son am yr angen am CCS (systemau *Carbon Capture and Storage*). Synhwyro maen nhw y cânt dragwyddol heol, nawr, i gloddio a llosgi heb gyfyngu ar eu hallyriadau $CO_2$. Clywir mwy o wleidyddion yn dadlau bod swyddi'n bwysicach na'r amgylchedd — fel petaent yn gwrthod y cysylltiad rhwng ecosystemau'r Ddaear a dyfodol dynolryw.

Ar ben hynny, ergyd wleidyddol drom oedd i'r Blaid Weriniaethol fod mor llwyddiannus yn etholiadau'r Unol Daleithiau, gyda chymorth y *Tea Party* asgell dde sy'n gwadu Cynhesu Byd-eang yn llwyr. Hyd yn oed cyn yr etholiadau, roedd yr Arlywydd Obama wedi methu cael Mesur Newid Hinsawdd digon llipa trwy'r Senedd, er mawr lawenydd i ddiwydiannau brwnt a phwerus Glo ac Olew. Gyda'r Gweriniaethwyr bellach mor gryf, ac ysbryd mileinig a siofenistaidd ar gerdded ledled y wlad, does dim disgwyl y bydd America yn dangos unrhyw ddiddordeb ym mhwnc y Ddaear. Rhagfarn cymaint o'i phobl yw mai cynllwyn 'sosialaidd' i reoli'r byd ydyw.

Gwelir, hefyd, ymraniadau yn rhengoedd y mudiadau Gwyrdd. Dewisodd *Channel 4* hybu hynny yn y DG trwy ddarlledu rhaglen ddogfen unochrog yn ddiweddar dan y teitl **How the Greens Got it Wrong**. Rhoddwyd rhwydd hynt i ddau o Wyrddion amlwg — un yn Sais a'r llall yn Americanwr — feirniadu'r mudiad heb i neb gael eu hateb. Gwir, roedd 'na drafodaeth stiwdio wedi'r rhaglen a loriodd y beirniaid, ond faint sy'n gwylio'r rheiny?

Yn y rhifyn hwn o'r **Papur Gwyrdd** *(tud. 8),* gwelwn ddatblygiad pellach yn y gred ymhlith lleiafrif o garedigion y Ddaear nad oes gobaith ei hachub rhag Cynhesu Byd-eang. Eisoes, mynnodd yr Athro James Lovelock (datblygwr y syniad o'r Ddaear fel *Gaia*, sef endid organig o systemau cyd-ddibynnol) mai'r gorau y gallwn ei wneud yw ceisio mwynhau gweddill ein dyddiau. Bellach, sefydlwyd grŵp **Dark Mountain** fel llais i'r union syniad hwnnw fel y caiff dynolryw o leiaf yn paratoi'n feddyliol ar gyfer y chwalfa sy'n rhwym o daro'n gwareiddiad, meddan nhw, trwy effeithiau Newid Hinsawdd.

Ar yr un pryd, yn nhawelwch a gwrthrychedd eu hastudiaethau, mae gwyddonwyr yr hinsawdd yn parhau i gofnodi effeithiau cynyddol Cynhesu Byd-eang. Mae allyriadau $CO_2$ diwydiannol ar gynnydd. Ac mae miliynau o bobl yn dioddef gan newidiadau yn y patrymau tywydd trwy lifogydd a sychder sy'n edrych yn frawychus o debyg i Newid Hinsawdd (er na all gwyddonwyr gadarnhau hynny gant y cant).

Felly — dim gobaith yn 2011? Dim gobaith i'r Ddaear? Fydd grymoedd y fasnach global niweidiol ddim yn crynu i glywed hyn, ond dyw'r **Papur Gwyrdd** ddim yn derbyn hynny. Roedd dwy set o ffigyrau o arwyddocâd arbennig ym mhôl piniwn Ipsos Mori yn 2010: dangosodd un bod 71% o bobl yn bryderus am Newid Hinsawdd (lawr o 82% yn 2005) a bod 53% yn derbyn nad oeddynt yn talu digon o sylw i wybodaeth am Newid Hinsawdd. Gwelwn, felly, fod mwyafrif sylweddol yn dal i ddeall perygl ein sefyllfa fel dinasyddion ar y blaned hon a'u bod yn gweld bod angen iddynt feddwl yn ddwysach amdano. Yn y ffigyrau hynny mae her a gobaith i garedigion y Ddaear ledled y byd.

Pan ofynnwyd i'r diwinydd Martin Luther yn yr Almaen ganoloesol beth wnâi o glywed bod y byd yn mynd i hollti'n chwilfriw yfory, atebodd, "Af ymlaen i blannu fy nghoeden afalau!" I bawb yn y 'mudiad Gwyrdd' rhyngwladol, plannu ein coed afalau yw chwarae ein rhan,



er mor fach, i warchod y blaned ryfeddol hon ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Ysbrydoliaeth yw clywed bod plant ysgolion Gwynedd *(tud. 7)* yn dysgu beth mae hynny yn ei olygu, gan fod cymaint ohonom ni sy'n hŷn wedi anghofio'n lân. Croesawn sialens 2011.

# Gwynt teg ar eu hôl

ROEDD dwy eitem i'w croesawu i Gymru a'r Ddaear yn Adolygiad Gwariant Llywodraeth Glymblaid San Steffan — sef y penderfyniadau i beidio â mynd ymlaen gyda Morglawdd Mawr yr Hafren na Choleg Rhyfel Sain Tathan.

O ran y Morglawdd Mawr, bu'r **Papur Gwyrdd** yn gwrthwynebu'r cynllun hynod gostus a difrodol hwn i godi mur 10 milltir o hyd fyddai wedi hollti'r Hafren o Gaerdydd i Weston. Serch hynny, mae'n siom na chefnogwyd un o'r cynlluniau ynni adnewyddol llai e.e. Morglawdd Shoots. Byddai un o'r rhain wedi dechrau cynhyrchu trydan glan yn gynt o lawer, am lawer llai o gost, a heb achosi niwed amgylcheddol mawr. Rhaid bwrw ymlaen i elwa'n gall o'r llanw achubol.

Ac o ran y Coleg Rhyfel, buom yn gwrthwynebu'r cynllun anferth a chostus arall hwn ym Mro Morgannwg gan y byddai wedi difrodi'r amgylchedd, cryfhau gafael militariaeth ar ein heconomi, a chynnig hyfforddiant i bobl o ethos treisgar o bob rhan o'r byd. Byddai'n enghraifft arall o osod y sector breifat ynghanol datblygiadau militaraidd — cam peryglus, fel y gwelir yn Iraq ac Afghanistan. Os am heddwch, paratowch — nage, nid am ryfel fel dywed y diwydiant arfau, ond — am heddwch. Gwrthwynebwn unrhyw awgrym o ail-godi cynllun y Coleg Rhyfel. Yn lle hynny, cefnogwn yr ymgyrch i sefydlu Coleg Heddwch yn y Fro — coleg i gynnal dynoliaeth a chynnal y Ddaear. ☐

***Myfanwy Davies, Cyfarwyddydd Addysg Wleidyddol Plaid Cymru, yn ystyried sut mae cysoni gweithredu amgylcheddol gydag ennill etholiadau …***

# Rhaid gwneud newid hinsawdd yn ganolog i'n gwleidyddiaeth



DR MYFANWY DAVIES

**I'R rhan fwyaf ohonom, mae trafod yr amgylchedd bellach yn gyfystyr â thrafod newid hinsawdd.**

Gall rhai dadlau mai gweithredu i achub anifail neu gynefin penodol sy'n bwysig, ond mae graddfa newid hinsawdd bellach yn gwbl ddiamheuol.

Gyda llifogydd cyson mewn rhannau o Gymru, mae eithafion tywydd ar ein gwarthau. Yn Llanelli lle fy magwyd i, mae llifogydd cyflym a pheryglus yn digwydd bellach o leiaf ddwywaith y flwyddyn yn dilyn glaw mawr.

Nid problem i bendraw'r byd yw hwn ond her sy'n wynebu Cymru heddiw.

Mae targed Llywodraeth Cymru'n Un o dorri allyriadau carbon gan 3% yn flynyddol yn gam i'r cyfeiriad cywir. Ni fydd yn ddigon fodd bynnag, i arafu effeithiau newid hinsawdd. Targed Plaid Cymru yw 9%. Y mae'n uchelgeisiol ond gellir ei gyrraedd gyda'r ewyllys wleidyddol gywir.

Mae yna ganfyddiad peryglus ymysg rhai gwleidyddion bod budd economaidd a chyfrifoldeb amgylcheddol yn ddau beth na ellir eu cysoni. Addo jam yfory — i grwpiau gwahanol — y bydd gwleidyddion y pleidiau Prydeinig. Ac mae darparu jam yfory, hyd yn oed pan fo hynny'n jam cwbl ddychmygol, wedi dibynnu ar hybu budd economaidd yn yr ystyr mwyaf niweidiol.

Gwahanol iawn oedd hi eirioed o fewn y mudiad cenedlaethol. Mae parch at dirwedd ac adnoddau naturiol Cymru yn un o hanfodion Cenedlaetholdeb Cymreig fel y mae gweithredu cymunedol.

Brwydrau amgylcheddol — yn ogystal â chenedlaethol — oedd y brwydrau yn erbyn clirio Epynt a boddi Tryweryn.

## PLAID CYMRU — DAEAR FFRWYTHLON I SYNIADAU *'SMALL IS BEAUTIFUL'*

Cadw tirwedd a ffordd o fyw oedd bwriad y gwrthwynebwyr. Yn yr un modd, fandaliaeth amgylcheddol oedd meddiannu ucheldir y canolbarth a'i chladdu dan binwydd: "coed y trydydd rhyfel", chwedl Gwenallt.

Ers cyfnod DJ Davies, mae pwyslais ar hunanddibyniaeth a datblygu systemau rheoli cydweithredol wedi diffinio ffordd Plaid Cymru o weld dyfodol ein gwlad. Daear ffrwythlon, felly, i syniad E.F.Schumacher am economi gynaliadwy bu cynadleddau Plaid Cymru byth ers cyhoeddi *'Small is Beautiful'*.

Wrth wynebu effeithiau'r dirwasgiad diwethaf, yr oedd felly'n naturiol i Blaid Cymru gyhoeddi *100,000 o Atebion*, cynllun i greu 100,000 o swyddi drwy wyrddio economi Cymru.

Yr hyn sydd wedi newid — ac wedi trawsnewid y sefyllfa — yw'r angen am weithredu ar frys a'n gallu, drwy'r dechnoleg, i weithredu.

Gwyddom bellach y gallwn gyflenwi anghenion ynni Cymru drwy ffynonellau cynaliadwy.

O'i orffen, bydd datblygiad ynni gwynt *Gwynt y Môr* oddi ar arfordir y Gogledd yn cyflenwi dros hanner anghenion blynyddol Cymru — a mwy na digon i'r gogledd fod yn hunangynhaliol.

## CERDDWYR NID MILWYR YN MEDDIANNU MYNYDD YR EPYNT

Ond nid ni biau *Gwynt y Môr*. Datblygiad yw hi ar ran gwmni ynni, RWE Innogy, Siemens, a Dinas Munich.

Mae technoleg Tyrbinau Llanw hefyd yn addawol tu hwnt — a grym moroedd Cymru yn cynnig posibiliadau i arwain Ewrop a'r byd yn y maes hwn.

Bydd angen gweithredu gwleidyddol ar sawl lefel er mwyn harneisi'r dechnoleg er ein lles ni. Mae'n harfordir, gwely'r môr a darnau mawr o'r ucheldir dal o dan berchnogaeth Ystâd y Goron a phenderfyniadau ar gynlluniau ynni dros 50MW dal yn cael eu gwneud yn Llundain. Dyma feysydd lle gall Plaid Cymru gynnig arweiniad pendant.

Yn yr un modd, gyda ffigurau swyddogol yn darogan diweithdra yng Nghymru yn codi at 11% erbyn 2015, mae angen dychwelyd at gynllun *100,000 o Atebion*. Creu swyddi drwy gynhyrchu bwyd ac ynni yn lleol, amddiffyn y diwydiant adeiladu a gwneud y defnydd orau o stoc tai presennol.

Beth felly am weithio i ryddhau tir ar gyfer gerddi cymunedol a chefnogi ffermwyr drwy gryfhau cynlluniau pwrcasu lleol ar ran Llywodraeth y Cynulliad ac awdurdodau lleol?

Beth am hydro ar afonydd a nentydd yr ucheldir, systemau treulio gwastraff ar raddfa fach — a solar? Wedi'r cyfan mae yna haul bron pob man rhyw ben!

Mae gan gwmnïau adeiladu, perchnogion tai a landlordiaid rôl bwysig i chwarae yng ngwyrddio'r economi. Mae'r Blaid eisoes yn ymgyrchu i dynnu TAW oddi ar gynlluniau i adnewyddu ac insiwleiddio tai.

Gallwn hefyd hybu cynlluniau cymunedol i werthu ynni gwyrdd i'r grid fel ffordd o greu incwm o stoc tai presennol. Mae Cynghorau Bryste a Birmingham eisoes yn gwerthu ynni a gynhyrchir gan dai cymunedol. Pam nad ni?

Wrth i Gymru gael ei gweld fel gwlad gynaliadwy, gallwn hybu eco-dwristiaeth ar raddfa genedlaethol. Cerddwyr nid milwyr yn meddiannu Epynt a phob ymwelydd sy'n teithio i Gymru ar y trên ac yn gweld Cymru o gefn ceffyl neu feic yn un yn llai sy'n hedfan i Bali.

Mae trafodaethau ynglŷn â gwyrddio'r economi eisoes wedi dechrau o fewn y Blaid wrth i nifer ohonom ddatblygu syniadau ar gyfer maniffesto 2011. Credaf y gallwn gyflwyno syniadau sy'n dangos yn eglur bod yna ffordd werdd o weithredu — sydd hefyd yn ffordd gwbl Gymreig o weithredu.

Sgwario'r cylch? Na, newid y patrwm! Os nad yw gwleidyddiaeth Cymru yn rhoi lle canolog i ymateb i'r her o fyw'n gynaliadwy, does dim dyfodol iddi.

**► Mae'r Dr Myfanwy Davies yn un o ymgeiswyr Plaid Cymru ar restr y De Orllewin yn etholiad Cymru 2011.**


**'Mae twf economaidd o natur ganibalaidd: mae'n bwydo ar Natur a chymunedau ac ar ben hynny'n troi costau anhaledig yn ôl arnynt.'**

***Wolfgang Sachs 'Dismantling Development', Resurgence***

# Delwedd llwch y glofeydd yn bygwth eto

**DIM GLO, DIOLCH!**

**Gan 'TWLS AR Y BAR'**



**WRTH iddo gyflwyno eitem am John Hartson ar *Saturday Live* ar BBC Radio 4 (30 Hydref), dywedodd y cyflwynydd, y Parch Richard Coles, "John shook off the coal dust of the Valleys" i fynd ar ôl "gold dust" Arsenal.**

Roedd Mr Coles yn ail-adrodd y chwedl niweidiol bod Cymru'n dal yn wlad o byllau glo sy'n cael ei chynnal gan economi cyntefig o gloddio a llosgi gyda'i etifeddiaeth o ddifrod amgylcheddol.

Rydyn ni sy'n byw yma'n gwybod yn wahanol. Daeth Oes y Glo i ben. Mae'r Cymoedd a'u bryniau coediog yn wir hardd unwaith yn rhagor ac mae eu hafonydd glan yn disgleirio.

Dyma lefydd sydd bellach yn denu twristiaid ac sydd â chyfle i groesawu diwydiannau uwch-dechnoleg y byd newydd, gwyrddach, rydym yn honni ein bod yn anelu ato.

Ond, ara' deg. Efallai roedd Mr Coles wedi clywed bod Western Coal o Ganada yn bwriadu ehangu cynnyrch glofa Aberpergwm ger Glyn-nedd nawr eu bod yn llwyr berchnogion yno (*Coal makes comeback – and creates new jobs*, 26 Hydref, **Evening Post**).

Gyda'r stori honno, a rhai tebyg ynglŷn â'n safleoedd glo brig, yn hedfan o gwmpas gwefannau rhyngrwyd y byd, mae ein gobeithion am ddelwedd newydd, lanach i Gymru'n cael eu dryllio wrth i *How Green Was My Valley* godi eto fel drychiolaeth o'n gorffennol.

Yn wyneb hyn, dylem weithio'n galetach i sicrhau dyfodol gwell i'n pobl ifainc yng Nghymru yn hytrach na dathlu'n llawen — i sain pibau'r diwydiant glo — wrth eu danfon yn ôl dan ddaear.

Yn sicr, dylem fod yn ochelgar iawn ynglŷn â Western Coal. Yn eu fideo corfforaethol ar eu gwefan, mae'r cwmni'n falch i gyflwyno'u hunain fel corfforaeth ryngwladol a'u bryd ar dwf mawr a chyflym. Does dim awgrym eu bod yn petruso o gwbl ynghylch yr amgylchedd, serch y golygfeydd o ddinistr a ddangosir yn cael eu hachosi gan eu safleoedd yn British Columbia a Gorllewin Virgina.

Dyw Llywydd Western Coal, Keith Calder, ddim yn gweld unrhyw reswm yn ei fideo, 'chwaith, i hyd yn oed gyfeirio at CCS *(Carbon Capture and Storage)*.

Dyna'r system, nad sy'n bod eto, sydd i fod i atal glo rhag achosi cymaint o'r cynhesu byd-eang sy'n arwain at beryglon newid hinsawdd.

O leiaf, dyw Mr Calder ddim yn ceisio'n twyllo bod glo yn 'lân'. Ymddengys nad oes diddordeb ganddo ym mhwnc dyfodol y Ddaear. Cloddio, gwerthu a llosgi glo yw'r pethau holl bwysig iddo fe — ac elw, wrth gwrs.

Gyda chorfforaethau glo mor ymwthiol yn prynu mewn i Gymoedd y de, dylai ein gwleidyddion lleol a chenedlaethol wneud penderfyniad strategol i beidio ag ildio i'r pwysau i droi'r clociau yn ôl i'r Oes Glo.

Byddai ildio felly'n atgyfnerthu'r math o ddelwedd o Gymru gafodd ei ail-adrodd ar *Saturday Live* ac yn bygwth oes newydd o ddioddefaint a difrod y credasom iddo fod ar ben.

Wrth gwrs bod angen creu swyddi newydd i bobl Cymru. Ond dylem gofio bod llosgi glo brwnt yn newyddion drwg amgylcheddol, yn lleol ac i'r Ddaear gyfan.

Os ydym o ddifrif ynglyn â sicrhau dyfodol i'n pobl ifainc, rhaid creu swyddi sy'n cynnal y blaned ac nid yn ei dinistrio. □

# ENNILL A CHOLLI YM MRWYDR Y DDAEAR

**Pigion amrywiol 2 fis**

## STRATEGAETH CYMRU

CYHOEDDODD Llywodraeth Cynulliad Cymru gynllun **Strategaeth Cymru ar Newid Hinsawdd** sy'n ail-ddatgan y nod o leihau allyriadau tŷ gwydr o 3% y flwyddyn o 2011 ymlaen. Cydnabyddir bod newid hinsawdd bellach ar gerdded o ganlyniad i gynhesu byd-eang a achosir gan weithgarwch dynol. Bwriad Llywodraeth Cymru yw nid yn unig arwain gyda mesurau i leihau allyriadau Cymreig ond hefyd sicrhau y bydd y wlad yn alluog i ddelio gyda chanlyniadau'r newid hinsawdd sydd eisoes yn anorfod.

## 'ARNIE' WRTH EI FODD

MEWN refferendwm yng Nghaliffornia, methodd ymdrechion cwmnïau olew Texas i wyrdroi deddfwriaeth amgylcheddol y dalaith. Ymosododd Arnold Schwarzenegger, yn chwyrn ar y lobi olew: "Oes unrhyw un yn credu bod y cwmnïau hyn, o garedigrwydd eu calonnau olew du, yn gwario miliynau a miliynau o ddoleri er mwyn gwarchod swyddi? Nid am swyddi mae hi o gwbl ... Mae hi ynghylch eu gallu i achosi llygredd ac felly amddiffyn eu helw."

## GWEITHGARWCH GREENPEACE

BU mudiad Greenpeace yn cynnal nifer o weithgareddau uniongyrchol oedd yn galw am ddewrder ar ran ei aelodau. Yn eu plith, ataliwyd tyllu am olew gan Chevron ym Môr y Gogledd ac arafwyd trên yn cario gwastraff niwclear yn Ffrainc a'r Almaen.

## PRYNU PLEIDLEISIAU

MAE nifer o enwau cyfarwydd byd busnes Ewrop wedi rhoi cyfanswm o $240,200 i seneddwyr yn America wrth eu hannog — yn llwyddiannus — i atal deddfwriaeth newid hinsawdd. Bu Bayer, Basf, Solvay, Lafarge, BP, GDF-Suez, Arcelor-Mittal ac Eon hefyd yn cefnogi ymgeiswyr yn yr etholiadau Senedd a Chyngres diweddar oedd yn gwrthod y farn wyddonol bod newid hinsawdd yn digwydd ac mai dynoliaeth yw'r prif achos.

## ELW GWYRDD I BARHAU

ER y dychryn achosodd Adolygiad Gwariant y Llywodraeth Doriaidd / Lib Dem, cafwyd croeso gan fudiadau gwyrdd i'r cyhoeddiad y bydd taliadau bwydo am drydan adnewyddol aiff i'r Grid Cenedlaethol yn parhau ar y lefel bresennol tan o leiaf 2013. Honnir bod y ffioedd hyn yn hanfodol i'r ymdrechion i hybu trydan adnewyddol, e.e. o baneli haul a gwynt, yn enwedig gan gymunedau lleol.

## POENI AM DDYFODOL OLEW

WRTH gyfeirio at broblem Olew yn ei Adroddiad am 2010, dywedodd yr Awdurdod Ynni Rhyngwladol: 'Os na wneir dim, neu ond ychydig yn fwy na'r presennol *[gan Lywodraethau]*, bydd y galw *[am olew]* yn parhau i dyfu, bydd costau cyflenwi'n codi, bydd y pwysau economaidd wrth ddefnyddio olew'n cynyddu, bydd y tebygrwydd o atal cyflenwadau'n dod yn fwy a bydd yr amgylchedd byd-eang yn dioddef niwed difrifol.' Gair i gall!

## COST AMHARCHU'R DDAEAR

YM mis hydref, lladdwyd 9 o bobl yn Hwngari ac achoswyd difrod anferth, wrth i lyn oedd yn llawn gwastraff gwenwynig hollti a llifo trwy bentref. Crewyd y llyn gan gwmni Alwminiwm. Arestiwyd pennaeth y ffatri.

# Ysgolion Gwynedd yn gwarchod eu Daear

***ELFED GRUFFYDD YN ESBONIO SUT MAE CYNLLUN ADDYSG WERDD GWYNEDD YN GOSOD PLANT YSGOL AR Y BLAEN WRTH ARWAIN EU CYMUNEDAU I DDEALL PWYSIGRWYDD TRIN EIN PLANED GYDA GOFAL ...***




**Plant Ysgol Llanbedrog ger Pwllheli'n torchi eu llewys gyda Lee Oliver o *Cadw Cymru'n Daclus* i lanhau a chodi sbwriel yn y parc chwarae lleol ac ar draeth cyfagos. Gwisgodd pawb fenyg a dillad pwrpasol i fynd ati â'r gwaith. Ar ddiwedd y sesiwn, casglwyd llond 20 bag o sbwriel o'r llecynnau lle buont mor brysur. Llwyddwyd i godi ymwybyddiaeth y plant a thrigolion y pentref o bwysigrwydd rhoi sbwriel yn y biniau pwrpasol er mwyn gwneud Llanbedrog yn bentref taclus i bawb.**

**SEFYDLWYD Cynllun Ysgolion Gwyrdd Gwynedd a Môn ddeng mlynedd yn ôl gan Gyngor Gwynedd (mewn partneriaeth â Chyngor Sir Ynys Môn a Chwmni Cynnal) er mwyn addysgu a hysbysu cenedlaethau'r dyfodol ynglŷn â materion amgylcheddol.**

Bellach mae dros 80 o ysgolion Gwynedd, yn gynradd, uwchradd ac arbennig, yn rhan ohono.

Yn y dyddiau cynnar hynny nodwyd mai ...

*'Prif nod y cynllun yw darparu fframwaith er mwyn cynorthwyo ysgolion i fabwysiadu polisïau a gweithgareddau fydd yn gwarchod yr amgylchedd fel rhan ganolog o fywyd beunyddiol yr ysgol.*

*'Yn ogystal, mae'r cynllun yn gosod pwyslais ar godi ymwybyddiaeth o'r angen i ofalu am yr amgylchedd, yr angen i fod yn fwy darbodus yn y defnydd o adnoddau naturiol a'r amgylchedd, rhwystro llygredd yn yr ardal leol ac ar gydweithio i wella'r amgylchedd lleol'.*

Roedd hyn yn rhannol yn deillio o alwad y Cenhedloedd Unedig dan **Agenda 21** ar i bob awdurdod lleol i lunio cynlluniau gweithredu er mwyn rhoi egwyddorion datblygu cynaliadwy ar waith o fewn eu hardaloedd. Yr adeg hynny roedd 'cynaliadwyedd' yn air dieithr ac roedd unrhyw un a ailgylchai bapur yn gwneud cymwynas fawr â'r amgylchedd.

## TEULUOEDD

Bydd ysgol yn y lle cyntaf yn dangos ymrwymiad i'r cynllun trwy arddangos Siarter fydd wedi'i harwyddo gan gynrychiolwyr y gymuned ysgol, yn blant ac oedolion.

Byddant trwyddi'n addo arbed ynni ac adnoddau naturiol ac yn dysgu am newid hinsawdd, lleihau gwastraff, lleihau a rhwystro llygredd, edrych ar ôl yr amgylchedd lleol, teithio'n ddoeth a chefnogi dinasyddiaeth fyd-eang. Mae hynny'n dipyn o goflaid i blant ymdrin ag o, ond fe lwyddant gydag ymroddiad a brwdfrydedd.

Ac nid ei gadw i fyd yr ysgol yn unig a wneir gan y bydd y plant yn ceisio dylanwadu ar eu teuluoedd a'r gymuned gyfan trwy lunio posteri, cylchlythyrau, plannu coed, cefnogi elusennau, ac ati.

Gosodwyd meini prawf i'r ysgolion weithio arnynt ac erbyn misoedd y gwanwyn a dechrau'r haf cesglir gwaith y plant mewn portffolio ac fe achredir hwnnw.

Bydd yr ysgolion yn datblygu ymlaen trwy dair gwobr — Efydd, Aur ac Arian — ac am hynny yn derbyn tystysgrifau wedi'u fframio a gwobrau ariannol. Mae'n ofynnol i'r ysgol wario'i gwobr mewn dull a fydd yn hyrwyddo'i gwaith 'gwyrdd'.

Nid gwobr ac anrhydedd unwaith-ac-am-byth ydi hi chwaith, gan y disgwylir i ysgol, os ydi hi am barhau'n Ysgol Werdd, i ddangos ymroddiad o flwyddyn i flwyddyn.

Gyda chyhoeddiad y ddogfen gwricwlwm **'Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang'** (2008) gan Gynulliad Cymru, manteisiwyd ar y cyfle i ailwampio'r meini prawf. Gwnaed hynny a'u gosod dan benawdau'r ddogfen, sef **Dewis a Phenderfyniadau, Newid Hinsawdd, Treuliant a Gwastraff** a'r **Amgylchedd Naturiol.** Mae'r disgwyliadau felly wedi'u plethu'n dynn i gwricwlwm yr ysgol.

Ymddangosodd termau cyfoes yn y meini prawf hyn, a thrafodir pethau fel olion troed carbon ac ecolegol, egni adnewyddadwy ac anadnewyddadwy, ac ymdrinnir â milltiroedd bwyd a nwyddau eraill. Rhoddwyd amlygrwydd i gompostio a gelwir ar ysgolion i ailgylchu amrywiaeth eang o ddefnyddiau. Daeth gwirfoddoli a chynnal prosiectau dyngarol ac amgylcheddol yn rhan o'r cynllun.

Bellach mae llu o ddeunyddiau defnyddiol ar gael i ysgolion, yn eu plith gwefannau a CDau perthnasol; prin iawn yn Gymraeg yn anffodus.

Caiff yr ysgolion gefnogaeth gan swyddogion o fewn y Cyngor ac asiantaethau allanol a gobeithir ehangu'r gefnogaeth yn fuan gydag apwyntiad Swyddog Cadwraeth Ynni — Codi Ymwybyddiaeth a fydd yn cydweithio'n amlwg ag ysgolion Gwynedd.

## ATEBION

Dywed y Cynghorydd Gareth Roberts, sy'n arwain ar faterion Amgylcheddol ar Gyngor Gwynedd:

"Mae'n hyfryd gweld plant a phobl ifanc Gwynedd yn cymryd diddordeb byw yn yr amgylchedd — yn wir maent yn gosod esiampl wych ar gyfer trigolion ar hyd a lled y sir.

"Mae'r cynllun arbennig hwn yn rhoi cyfle arbennig i ddisgyblion Gwynedd allu trin a thrafod materion fel cynhesu byd-eang, llygredd, trin gwastraff a phroblemau y mae'n rhaid i gymdeithas ganfod atebion iddynt.


"Y gobaith yw cael y gymuned gyfan i gydweithio er lles yr amgylchedd, a'r gwir yw bod plant a phobl ifanc yn cymryd rhan allweddol wrth osod cyfeiriad ar gyfer cymunedau lleol."

Mae rhagor o ysgolion wedi ymuno eleni eto a'n gobaith ydi y bydd pob ysgol yng Ngwynedd yn ymgyrchu'n frwd dros faterion gwyrdd a'r disgyblion hwythau yn eu tro'n datblygu'n oedolion cyfrifol gyda chyfrifoldeb at yr amgylchedd yn amlwg iawn yn eu meddyliau. ☐

**► Am unrhyw fanylion pellach, cysylltwch ag Elfed Gruffydd – Cydlynydd Ysgolion Gwyrdd Gwynedd — elfed.g@zen.co.uk**

**WEDI 2010, ANOBAITH YN Y MUDIAD AMGYLCHEDDOL?**

# 'Mae hi ar ben!' - medd Dark Mountain



*Angen grym ewyllys i newid patrymau economaidd dinistrïol os ydym am osgoi 'Anwareiddiad'*

**CHARLOTTE DAVIES**
**yn gofyn —**
***Ydy grŵp newydd Dark Mountain yn iawn i honni ei bod hi'n rhy hwyr i achub ein byd rhag chwalfa?***

**MAE anobaith wedi ymledu yn y mudiad amgylcheddol ers methiant Cynhadledd Newid Hinsawdd Copenhagen flwyddyn yn ôl, gan arwain at ymddangosiad grŵp newydd o'r enw *'Dark Mountain.'***

Wrth wraidd yr anobaith yw bod ymgyrchwyr yn ofni bod gwledydd datblygedig y Ddaear ddim yn agos at weithredu'r mesuriadau angenrheidiol i ddod â lefel y carbon yn ein hatmosffer i lawr. A dyna'r unig ffordd i osgoi effeithiau trychinebus newid hinsawdd.

Mynegiant ysgytwol o'r anobaith hwn yw *Dark Mountain*. Mae'r mudiad wedi'i seilio ar y gred bod gwareiddiad yn dod i ben, yn cael ei ddinistrio o ganlyniad i newid hinsawdd a yrrir ymlaen gan system economaidd sydd fel cancr yn achosi distryw rhywogaethau eraill y Ddaear.

Ond dyw'r mudiad newydd ddim yn ein hannog i ymgyrchu i newid gweithredoedd niweidiol llywodraethau a chorfforaethau mawr. Pennawd y wefan oedd yn cyhoeddi *Gŵyl y Mynydd Tywyll* a gynhaliwyd yn Llangollen ym mis Mai 2010 oedd: *'Croeso i ddiwedd y byd fel yr ydym yn ei nabod.'* Yn ôl maniffesto'r grŵp, rydyn ni i fod i *'wynebu'r realiti hwn yn onest a dysgu sut i fyw gyda fe'*.

Mae'r mudiad yn cyhuddo ymgyrchwyr gwyrdd o gael eu llyncu gan y system sy'n dinistrio'r Ddaear – gan honni eu bod yn ceisio amddiffyn gwareiddiad diwydiannol yn hytrach na'r blaned. Fe'u cyhuddir o bwysleisio atebion technolegol, gan obeithio galluogi parhad ein ffordd hynod wastraffus o fyw, yn lle ymosod ar brynwriaeth a'r system gyfalafol.

Cafodd *Mynydd Tywyll* ei sefydlu gan ddau awdur, Paul Kingsnorth a Dougald Hine, gyda'r pwrpas o sbarduno awduron ac artistiaid i greu ffyrdd newydd o weld a sôn am ein byd.

Mae pob gwareiddiad a'i fytholeg arbennig, sef straeon mae'r gwareiddiad yn dweud am ei hun wrth ei hun. Y fytholeg sy'n ganolog i'n gwareiddiad presennol yw'r gred mewn twf, ein concwest o natur, a goruchafiaeth dynolryw dros rywogaethau eraill. Nod *Prosiect Mynydd Tywyll* yw creu straeon newydd fel sail mytholeg oes yr 'Anwareiddiad' sydd i ddod ar ôl diwedd ein byd presennol.

Dyw syniad *Mynydd Tywyll* am bwysigrwydd y fytholeg y tu ôl i wareiddiad y byd modern ddim yn gwbl newydd ymhlith ymgyrchwyr amgylcheddol. Ar ddiwedd y 1990au roedd Thom Hartmann, yn ei lyfr *The Last Hours of Ancient Sunlight*, wedi dadlau bod mytholeg diwylliannau modern, gormesol, wrth wraidd yr argyfwng amgylcheddol presennol.

Ond, yn wahanol i'r *Mynydd Tywyll*, mae Hartmann yn credu bod gyda ni fytholeg amgen yn barod. Gellir dod o hyd iddo ymhlith diwylliannau hŷn pobloedd frodorol mewn sawl rhan o'r byd, mytholeg sydd wedi'i seilio ar gydweithrediad — rhwng unigolion, gyda chymdeithasau eraill a gyda byd natur.

Mae ateb tebyg i hyn i'w gael gan Bill McKibben, sylfaenydd 350.org, yn ei lyfr newydd *Eaarth: Making a Life on a Tough New Planet*. Mae McKibben mor ddigalon am y methiant i reoli'n hallyriadau carbon nes ei fod wedi dod i'r casgliad ein bod ni bellach yn byw ar blaned wahanol i'r ddaear — *Eaarth (Daaear?)* — o ganlyniad i'r newid hinsawdd a achosir gan ein gwareiddiad diwydiannol.

**Rhesymau da i beidio â dringo i fyny'r *Mynydd Tywyll* dim ond er mwyn aros yno am 'ddiwedd ein gwareiddiad'**

Er ei fod yn credu ein bod ni wedi colli'r frwydr i warchod y Ddaear fel rydyn yn ei hadnabod, mae McKibben yn dal i annog gweithredu i leihau ein hallyriadau a datblygu ffynonellau ynni di-garbon. Ar yr un pryd, mae'n dadlau bod rhaid newid y meddylfryd sy'n credu mai twf economaidd yw prif nod ein cymdeithas. Mae angen rhoi'r pwyslais ar ail-strwythuro cymdeithas, er enghraifft, meddai, trwy ddatblygu systemau amaethyddol lleol a thrwy baratoi — fel mae mudiad Trefi Trawsnewid yn ei wneud — am fyd heb olew.

Fel y dangosir gan ddadansoddiadau o sawl cyfeiriad, mae sefyllfa'n Daear yn fregus iawn a'r dyfodol yn edrych yn ddu. Ond mae rhesymau da i beidio â dringo'r holl ffordd lan y Mynydd Tywyll gan roi i fyny ar ymgyrchu ac eistedd i lawr i aros am y diwedd.

Yn y lle cyntaf, does neb, gan gynnwys gwyddonwyr, a'r gallu i ragweld y dyfodol gyda sicrwydd. Dydyn ni ddim yn gwybod yn union bryd na sut bydd ein ffordd o fyw yn gwthio systemau natur ein planed dros y diben.

Fel roedd George Monbiot yn nodi yn y *Guardian* (11 May 2010), mae gwareiddiad diwydiannol ein hoes ni wedi profi ei hun yn ddyfeisgar iawn. Dyw e ddim yn debyg i ddiflannu'n fuan. Ond os nad ydyn ni'n llwyddo i reoli dibyniaeth y patrwm diwydiannol ar dwf economaidd cyson a'i ddefnydd barus o bob math o danwyddau ffosil — beth bynnag am y niwed a achosir wrth gael gafael arnynt — bydd hyn yn tynnu bywyd ar y blaned hon i lawr gyda fe.

Yr eironi yw bod gyda ni'r dechnoleg ddi-garbon a all, gyda chadwraeth ynni, ddechrau newid y sefyllfa nawr. Ond rydym yn dioddef o ddiffyg ewyllys. Fel mae Hartmann, McKibben ac eraill wedi awgrymu, mae newidiadau diwylliannol, cymdeithasol a gwleidyddol yn fwy hanfodol na datblygiadau gwyddonol.

Yn rhifyn Tachwedd o'r cylchgrawn *Sojourners*, mae Bill McKibben yn cymharu'n hymateb i'r argyfwng amgylcheddol gyda'r dyn ifanc a ddaeth at Iesu Grist gan ofyn beth y dylai ei wneud i gael bywyd tragwyddol. O glywed ateb Iesu – bod angen iddo werthu ei eiddo a rhoi'r arian i'r tlawd – aeth i ffwrdd yn drist, *'for he liked his stuff and didn't want to sell it.'*

Fel y dyn ifanc, rydyn ni'n gwybod beth sydd angen ei wneud i achub bywyd ar y Ddaear. Yn wahanol i'r dyn ifanc, rhaid i ni beidio â throi i ffwrdd.

**► Gwefan Dark Mountain Project: www.dark-mountain.net**

## Dyma gyfle i ail-gynllunio'n trefi — ar seiliau dynol a chymunedol

Mae'r argyfwng presennol yn cynnig cyfle enfawr i ail-ddychmygu'n trefi a'n dinasoedd. Cawsom ein harwain i gredu mai dim ond un ffordd sydd i wneud pethau, bod marchnadoedd fel maen nhw ar hyn o bryd yn rhannau digyfnewid o ryw drefn naturiol uwch. Mae'r system hwn wedi erydu cymeriad unigol ein trefi a'n dinasoedd, ac wedi dwyn eu cymeriad sifil. Y newyddion da yw bod modelau amgen yn esblygu. Eu nodweddion diffiniol yw eu bod o faintioli dynol, wedi'u gwreiddio yn eu cymunedau ac yn hybu'r cyd-berthynas dynol sy'n gwneud bywyd yn werth chweil. ***Mudiad New Economics Foundation yn eu hadroddiad Clone Towns UK 2010***

***PENNAETH CYFEILLION Y DDAEAR YN BEIRNIADU CYNLLUNIAU LLYWODRAETH Y CYNULLIAD***

# Uniad cyrff amgylcheddol yn ffafrio cwmnïau mawr

**MAE'R cwympo ma's rhwng Asiantaeth yr Amgylchedd a Chyngor Cefn Gwlad Cymru ynglŷn â rhai prosiectau dros y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn achos embaras i'r Cynulliad Cenedlaethol.**

Yn arbennig, mae'r dadleuon ynglŷn â phwerdai Aberddawan a Phenfro wedi dangos methiant Asiantaeth yr Amgylchedd i gynnig gofal digonol i amgylchedd Cymru oherwydd iddo wrthod cyngor arbenigol Cyngor Cefn Gwlad Cymru.

Credwn fod yr anghytuno hwnnw yn un o'r rhesymau y tu cefn i'r uno sy'n cael ei awgrymu ar hyn o bryd rhwng y ddau gorff, ynghyd â Chomisiwn Coedwigaeth Cymru. Y canlyniad, yn ôl pob tebyg, fyddai corff mwy gwasaidd fydd yn gweithredu'n agosach i'r llywodraeth ac a fydd yn llawer llai tebyg i siarad yn ddi-flewyn-ar-dafod ar faterion amgylcheddol.

Pwerdy Aberddawan yw un o brif achosion llygredd yng Nghymru ac un o'r allyrwyr mwyaf yn Ewrop o nitrogen ocsid, sy'n niweidio iechyd dynol ac yn bwydo glaw asid a newid hinsawdd. Cyrhaeddodd y statws gwarthus hwn oherwydd iddo gael ei eithrio rhag gorfod gosod systemau rheoli nitrogen ocsid er mwyn iddo barhau i losgi glo Cymreig — polisi sy'n siŵr o sbarduno cynigion i agor mwy o safleoedd glo brig yng Nghymru.

**Gan**
**GORDON JAMES**
**Pennaeth Cyfeillion y Ddaear Cymru**

Fyddai perchnogion Aberddawan, RWE, byth yn cael caniatâd i fod mor esgeulus o'r amgylchedd yn eu gwlad eu hun *[sef, yr Almaen]*.

Bu Cyngor Cefn Gwlad Cymru'n dadlau'n gryf yn erbyn y caniatâd i'r pwerdy weithredu fel hyn gan ddatgan, mewn llythyr at yr Asiantaeth Amgylcheddol ar 15 Mehefin, 2007, ei fod "yn methu cynnig lefel derbyniol o amddiffyniad amgylcheddol."

Daeth anghytundebau i'r wyneb eto ynglŷn â'r asesiad o bwerdy-LNG newydd RWE ym Mhenfro. Yma dywedodd y Cyngor Cefn Gwlad nad oedd "cyfiawnhad i barod-rwydd yr Asiantaeth Amgylcheddol i dderbyn oeri uniongyrchol mewn lleoliad mor sensitif ... mae'r cyfarwyddiadau a ddefnyddir ganddynt yn dyddio 'nôl o leiaf 11 o flynyddoedd a dyw eu penderfyniad ddim yn talu unrhyw sylw at yr ymarfer gorau."

Yn y ddau achos, cafodd arbenigrwydd amgylcheddol y Cyngor Cefn Gwlad ei anwybyddu gan yr Asiantaeth Amgylcheddol fwy pwerus sy'n frwd i beidio â digio cwmnïau mawrion.

Y peth olaf sydd angen arnom ar hyn o bryd yw gwanhau ystyriaethau amgylcheddol wrth ffurfio polisïau. Mae'r dystiolaeth gynyddol o golledion bioamrywiaeth a newidiadau hinsawdd yn mynnu y dylai rheoliadau amgylcheddol gael eu cryfhau.

Yng Nghymru, er gwaethaf gwelliannau mewn rhai sectorau, dengys adroddiad gan Wasanaeth Ymchwil Aelodau'r Cynulliad fod dros hanner y rhywogaethau a chynefinoedd yn parhau i fod mewn cyflwr anffafriol. Ac yn fyd-eang, mae asesiad o'r 10 prawf pwysicaf o newid hinsawdd, gan Weinyddiaeth Forol ac Atmosfferig Cenedlaethol *[UDA]*, i gyd yn dangos bod y sefyllfa'n gwaethygu.

Mewn corff unedig, anodd gweld sut y byddai llais annibynnol Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn cael ei glywed. Byddai gwrthwynebiadau cryf gan wyddonwyr amgylcheddol y llywodraeth yn gorfod ildio'n dawel y tu fewn i furiau'r swyddfeydd i flaenoriaethau rheoliadau'r Asiantaeth.

Gallwn i gyd dderbyn bod angen gwelliannau effeithlondeb ar draws y bwrdd i ddelio â'r anawsterau ariannol a wynebwn.

Ond rhaid sicrhau hyn heb fygu'r arbenigrwydd sy'n hanfodol i warchod a chyfoethogi amgylchedd naturiol arddercHog Cymru. ◻

## LANSIO ACHOS I ATAL Y TYLLU




*Aelodau Greenpeace yn atal llong dyllu Chevron, Stena Carron, yn Shetland.*

**WEDI ymgyrchoedd o weithredu uniongyrchol yn erbyn cwmnïau olew, mae Greenpeace wedi lansio achos yn yr Uchel Lys yn Llundain yn erbyn yr hawl a roddir Llywodraeth San Steffan i gwmnïau dyllu ym Môr y Gogledd.**

**Dywed Greenpeace, "Mae'r Llywodraeth wedi dechrau rhoi trwyddedau tyllu allan ar bob llaw, fel petai trychineb BP yng Ngwlff Mecsico erioed wedi digwydd.**

**"Os ydyn ni o ddifrif ynglŷn â newid hinsawdd ac atal gollyngiadau arall fel *Deepwater Horizon* — y tro hwn ym moroedd y DG — rhaid i ni atal tyllu anghyfrifol."**

**Barnwr o'r Uchel Lys fydd yn penderfynu a oes achos digon cryf gan Greenpeace i gael gwrandawiad llawn.**

► *Mae Greenpeace eisoes wedi enill achos llys ynglyn â chynlluniau am bwerdai niwclear.*

# Daear-iadur Y Papur Gwyrdd

**Beth sy' 'mlaen yng Nghymru i warchod y byd?**



## MINS PEIS I DDATHLU BLWYDDYN RYNGWLADOL BIOAMRYWIAETH

**BRAF sylwi bod Canolfan Amgylcheddol Moelyci, ger Bangor, yn cynnal noson i ddathlu 2010 Blwyddyn Ryngwladol Bioamrywiaeth. Yno, ar nos Fercher, 29 Rhagfyr, am 7.30yh, bydd yr ecolegydd John Harold yn cyflwyno sgwrs ddarluniadol am fywyd gwyllt yn ymestyn o'r iseldir i gopa'r mynydd, ac yn dod â nifer o agweddau o hanes naturiol y fferm at ei gilydd. Ac yn ysbryd yr Ŵyl, y gwahoddiad yw i chi ddod â chacennau neu fins peis i'w rhannu! Digwyddiad rhad ac am ddim — ond croesewir rhoddion.**

**►Am fwy o wybodaeth: http://www.moelyci.org/**

## Nadolig Gwyrdd

OS AM ddathlu Nadolig a Blwyddyn Newydd gwyrdd eleni, go brin fod 'na achlysur gwell na **Ffair Nadolig** Canolfan y Dechnoleg Amgen ger Machynlleth ar ddydd Sadwrn, 4 Rhagfyr, a dydd Sul, 5 Rhagfyr, rhwng 10yb a 4.30yp. Bydd yno syniadau am anrhegion o bob math ynghyd â cherddoriaeth, gweithgareddau difyr, gweithdai, hwyl i'r plant – a 10% o ostyngiad yn Siop y Ganolfan. Am ddim!

**► Am fwy o wybodaeth:** events@cat.org.uk

## Ynni cymunedol

BYDD grŵp ynni Trawsnewid Abertawe yn clywed sut i sefydlu **Grŵp Ynni Cymunedol** ar nos Fawrth, 7 Rhagfyr, gan un o arbenigwyr yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni. Cyfarfod agored yng Nghanolfan Amgylcheddol Abertawe am 7.30 – 9.30 yh.

## Dathliad Sain Ffagan

AI yn Amgueddfa Sain Ffagan mae Prif Ŵyl Nadolig Cymru? Wel, yn sicr, mae'r dathliad hudolus hwn yn werth ei brofi. Eleni, cynhelir y **Nosweithiau Nadolig** enwog ar nos Fercher, 8 Rhagfyr, nos Iau, 9 Rhagfyr, a nos Wener, 10 Rhagfyr, rhwng 6 a 9 o'r gloch yr hwyr. Cewch gamu 'nôl i fyd symlach wrth fwynhau canu carolau (gyda Chanu Plygain yn Eglwys Llandeilo Ferwallt ar yr 8fed a'r 9fed), bandiau pres, traddodiadau Nadoligaidd, gweithgareddau i blant, ffair hen ffasiwn, bwyd a diod, stondinau crefft ac ati. Bydd lluniaeth tymhorol ar gael yn Café Bardi, Bwyty'r Fro, Ystafell De Gwalia ac ar y safle. Cofiwch wisgo'n gynnes a dewch â thortsh!

**► Prisoedd mynediad a threfnu ymweliad grŵp: ffoniwch 029 2057 3466**

## Gweld sêr

Y GREADIGAETH fawr fydd pwnc Terry Williams yng Nghanolfan Moelyci ger Bangor wrth iddo roi cyflwyniad i **Seryddiaeth Ymarferol** ar Ddydd Iau, 9 Rhagfyr, o 7yh ymlaen. Dillad cynnes! Digwyddiad rhad ac am ddim ond croesewir rhoddion.

## Yr Ardd Fotaneg

LLAWER iawn o bethau da yn digwydd dros y cyfan o'r Ŵyl yn yr Ardd Fotaneg Genedlaethol yn Llanarthne, Sir Gaerfyrddin. Cynhelir **Ffair Grefftau a Bwyd yr Ardd** yn y Tŷ Gwydr Mawr ar Sadwrn a Sul, 11 a 12 Rhagfyr. Ar nos Iau, 16 Rhagfyr, cynhelir **Carolau yn yr Ardd** gan gychwyn am 7.30 o'r gloch. Ar Sadwrn a Sul, 15 ac 16 Ionawr, cynhelir **Penwythnos Gwin** gyda bwydydd, cerddoriaeth a gwinoedd gwych o ardaloedd Môr y Canoldir – eto yn y Tŷ Gwydr Mawr. Bydd y cyntaf o gwrs 4 Sadwrn ar **Dyfu Llysiau Organig** ar Ddydd Sadwrn, 29 Ionawr, rhwng 10yb ac 1 o'r gloch, .

**► Gwybodaeth: ffoniwch 01558 667150.**

## Sgiliau plannu perthi

GELLWCH ddysgu sut i **Plannu Perthi** yng Nghanolfan Gynaladwyaeth *Down-to-Earth* yn Llandeilo Ferwallt, Penrhyn Gŵyr, os ewch i fynychu cwrs dydd yno ar ddydd Sadwrn, 11 Rhagfyr. Y gost — fydd yn cynnwys cinio — fydd £45 / £65 / £95, yn ôl eich statws.

**► Gwybodaeth: http://www.downtoearthproject.org.uk**

## Ffair Moelyci

BYDD Canolfan Amgylcheddol Moelyci yn cynnal eu **Ffair Nadolig** ar Ddydd Sul, 12 Rhagfyr, rhwng 11yb a 4yp. Cewch fwynhau crefftau, cynnyrch, cerddoriaeth, gweithgareddau, lluniaeth, awyrgylch gyfeillgar braf ac ati. Croeso i bawb — am ddim.

## Cerddi'r hinsawdd

BYDD Menter Awel Aman Tawe yn cynnal **Noson Wobrwyo** eu cystadleuaeth *Newid Hinsawdd* yng Nghanolfan Celfyddydau Pontardawe ar nos Iau, 25 Chwefror.

► http://www.awelamantawe.org.uk/


## HYSBYSEBWCH YN Y PAPUR GWYRDD

Am *Garden Costau Hysbysbu yn Y Papur Gwyrdd*, ebostiwch at: ypapurgwyrdd1@btinternet.com neu ffoniwch 01792 798162 . Cysylltwch erbyn (tua) Ionawr 4 ar gyfer rhifyn Chwefror / Mawrth


# Bod yn gyfartal yn llesol i bawb

**ER mai llyfr academaidd yw *The Spirit Level*, mae wedi cael llwyddiant mawr y tu hwnt i'r twr ifori wrth ddangos bod pawb yn elwa o fyw mewn cymdeithas fwy cyfartal — ac nid dim ond pobl dlawd.**

Ers ei gyhoeddi yn 2009, mae 36,000 o gopïau o'r llyfr wedi'u gwerthu yn y DG yn unig. A chymaint yw ei ddylanwad nes iddo gael ei enwi gan y *New Statesman* fel un o 10 llyfr pwysicaf y degawd .

Roedd yr awduron, yr Athro Richard Wilkinson (Prifysgol Nottingham) a'r Athro Kate Pickett (Prifysgol York), wedi dadansoddi ystadegau o 23 o'r 50 gwlad fwyaf cyfoethog yn y byd, gan gynnwys y DG. Gwelsant eu bod yn dangos bod dinasyddion gwledydd mwy cyfartal, fel Sweden a Siapan, yn mwynhau iechyd gwell, bywydau mwy hir, addysg well a safonau uwch o ran lles plant. Mae'r gwledydd hyn hefyd yn dioddef llai gan drais, cyffuriau, beichiogi gan blant yn eu harddegau a gordewdra.

Eu casgliad mwyaf radical yw nad yw twf economaidd yn y gwledydd cyfoethog bellach yn uchelgais addas gan nad yw'n gwella bywydau eu pobl. Beth sydd ei angen, meddant, yw ffyrdd gwell o rannu ein cyfoeth. A byddai hynny'n fuddiol i'r Ddaear hefyd!

**► *The Spirit Level: Why More Equal Societies Almost Always Do Better* (London, Allen Lane 2009)**

**BYDDWN YN FALCH I DDERBYN EICH SYNIADAU CHI ...**

**► Croesawn erthyglau, lluniau, straeon a syniadau i'r Papur Gwyrdd — erbyn Ionawr 4 os i'w hystyried ar gyfer rhifyn Chwefror / Mawrth. Ebostiwch at: ypapurgwyrdd1@btinternet.com. Neu ffoniwch 01792 798162. Llythyrau at 217 Vicarage Road, Treforys, Abertawe SA6 6DX.**

# Y byd a'r aelwyd

**Golwg 'cartrefol' ar yr ymgyrch 'global'**

## Dianc rhag tagfa draffig Abertawe am hoe mewn dinas heb geir

**AETHOM ar y trên i Fenis ar arfordir Adriatig yr Eidal yn ddiweddar ac fe brofodd y siwrne'n hawdd a phleserus — wedi i ni lwyddo gadael Abertawe, hynny yw.**

Tagfa draffig enfawr o ganlyniad i'r ras 'Taith Feiciau Prydain' yn atal ein tacsi oedd y broblem yn ein dinas annwyl. Yn y pendraw, bu raid i'r ddau ohonom — a'n merch fwy heini — redeg, gan gario'n bagiau trwm, i fyny saith llawr i gopa maes parcio ceir ger gorsaf Abertawe gan ruthro i'n trên gydag ond tair munud i fynd. Fel dywedodd Wellington wedi Waterloo, *"A damn close run thing!"*

Ond, wrth gyrraedd gorsaf Fenis ar y bore heulog hyfryd canlynol, a chamu'n syth i *vaporetto* ar y *Canal Grande* i hwylio i'n llety, roeddem yn sylweddoli ein bod wedi cyrraedd i ddinas gwbl ryfeddol oedd yn werth ein holl anadlu gor-gyffrous yn Abertawe.

Awn ni ddim i sôn am bob hyfrydwch ddaeth i'n rhan yn ystod ein hymweliad (er, rhaid cyfeirio at brofi opera mewn *palazzo* ar lan y gamlas hudolus). Ond mae un peth yn sefyll allan gan ei fod mor berthnasol i ethos **Y Papur Gwyrdd**: gwelsom fod hyd yn oed trigolion dinas fodern yn gallu byw heb geir.

Yn ystod ein pedwar diwrnod yn Fenis, gwelsom yr un car - dim ond badau lu masnachol a phleser yn prysuro ar y camlesi, a throliau llwythog yn cael eu gwthio'n chwim trwy'r strydoedd cul at siopau a swyddfeydd. A dyna sut mae nwyddau'n cyrraedd pen y daith yno. Fel gwahangleifion, caiff ceir ymwelwyr eu caethiwo mewn parciau aml lawr ger y cob i'r tir mawr a cherbydau eraill yn y porthladd.

Mor braf cael y math hwn o gadarnhad y gallwn fod yn ddigon call fel dynoliaeth i gadw at systemau trafnidiol sy'n addas i'n sefyllfa. Yn achos Fenis, sef dinas a osodwyd ar ynysoedd, mae hyn wedi golygu gwrthod ildio i bwysau i ddymchwel adeiladau a llenwi camlesi gyda cherrig a tharmac er mwyn creu traffyrdd. Gwrthodwyd gwerthoedd 'y farchnad' sydd a'i bryd ar 'dwf' ac elw — ac fe gafwyd elw cymaint yn fwy wrth i bobl go-iawn yn eu cymunedau fynnu cadw at eu patrymau teithio dyfrllyd hoff.

Mor wahanol fu'r hanes dros y blynyddoedd mewn cymaint o lefydd eraill – o Galiffornia i Gymru — lle cafodd, er enghraifft, systemau tramiau effeithiol eu difrodi'n fwriadol er mwyn gorfodi pobl i brynu ceir a defnyddio petrol. A dyna arwain at dagfeydd cynyddol traffig y byd modern — gydag ambell i ras feiciau'n cyfrannu hefyd, wrth gwrs.

MAE peiriant *hi-tech* newydd yn ein tŷ ni. Teclyn yw e sy'n dangos faint o drydan sy'n cael ei ddefnyddio gennym, a'r gost, a'r allyriadau carbon a achosir. Y bwriad yw deall beth yw'r prif droseddwyr o ran llyncu'r trydan er mwyn i ni gael eu ffrwyno.

Ond mae gennym newyddion da i rannu â chi yn y mater o gostau ynni. Aeth ein bil nwy i lawr dros y flwyddyn — ie, i lawr. Gwyddom am giamocs biliau'r cwmniau, ond y neges lawen yw bod ein gwario ar system twymo dŵr newydd mwy effeithlon siwr o fod yn dwyn ffrwyth o ran arbedion, a'n cwtogi ar ein cawodydd i bob yn ail ddydd hefyd (er amheuon Bethan Lloyd, y **Western Mail**, ynglyn â hynny!).

O ran allyriadau tŷ gwydr, rydym yn hollol ddi-garbon yn barod o ran ein trydan gan mai dim ond ynni adnewyddol a dalwn amdano trwy gwmni *Good Energy*. Mae Brenin Glo yn cael croeso gan rai i ail godi yng Nghymru — ond nid yn ein tŷ ni, diolch.

*► Pob dymuniad da i bob un ohonoch dros Ŵyl y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd — ac i'r Ddaear gyfan y mae angen cymaint mwy o gyfeillion arni. Gweler yr hysbyseb* ⟶

***Hywel a Charlotte***

## DATHLU 10 / 10 LEDLED Y BYD




**Ar 10 Hydref 2010, bu pobl ledled y Ddaear yn cynnal gweithgareddau i fynnu bod Cynhesu Byd-eang a Newid Hinsawdd yn cael eu cymryd o ddifrif. Uchod, Washington DC; Isod, Thailand; Isaf, Bangladesh**







Mae **Cyfeillion y Ddaear Cymru** wedi bod yn gwarchod yr amgylchedd a gwneud pethau'n well i bobl Cymru ers mwy na 25 mlynedd.

Mae grwpiau lleol Cyfeillion y Ddaear yn cyfarfod drwy Gymru gyfan. Cymerwch ran, a helpwch ni i wneud gwahaniaeth yn lleol ac yn fyd-eang.

**www.cyddcymru.co.uk**

**02920 229 577**

**Cyfeillion y Ddaear Cymru**
**Friends of the Earth Cymru**

# Mynnwch gwsg ym mynwes natur






## ... gan gynnwys i'r babi

# Matresi Organig gan Abaca


Abaca, Uned 1,
Parc Busnes Tŷ Croes,
Rhydaman,
Sir Gaerfyrddin SA18 3RZ

**01269 598491**
**info@abacaorganic.co.uk**